OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 77 (Cy. 8)

# ARCHWILIO CYHOEDDUS, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Diwygiadau Canlyniadol) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *14 Ionawr 2014* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 30(2) a 33(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Yn unol ag adran 30(2) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chymeradwywyd ef ganddo drwy benderfyniad.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Diwygiadau Canlyniadol) 2014 a daw i rym ar 1 Ebrill 2014.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 1998

**2.** Yn adran 145B(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**), yn lle paragraff (b) rhodder—

“(b) audit their accounts for a financial year.

### Diwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

**3.**—(1) Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004(**3**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 68(1), yn lle “Auditor General for Wales” rhodder “Wales Audit Office”.

(3) Yn unol â hynny, mae pennawd adran 68 yn newid i “Transfer of property etc to Wales Audit Office”.

(4) Yn Atodlen 3, yn lle “Auditor General for Wales” ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “Wales Audit Office”.

(**1**) 2013 dccc 3
(**2**) 1998 p. 38
(**3**) 2004 p. 23

*Jane Hutt*

14 Ionawr 2014

Y Gweinidog Cyllid, un o Weinidogion Cymru

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio adran 145B(5)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 drwy ddileu'r cyfeiriad at aelodau staff Archwilydd Cyffredinol Cymru ("ACC").

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn diwygio adran 68 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac Atodlen 3 iddi, i roi cyfeiriadau at Swyddfa Archwilio Cymru ("SAC") yn lle cyfeiriadau at ACC.

Mae'r diwygiadau hyn wedi eu gwneud o ganlyniad i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ("y Ddeddf") sy'n gwneud darpariaeth i ddiwygio trefniadau archwilio cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn rhagnodi bod swyddfa ACC i barhau, ond ar delerau penodedig, ac yn creu corff corfforaethol newydd, SAC, y mae'n rhoi swyddogaethau iddi. Mae hefyd yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff ACC i SAC.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r offeryn hwn.